

4edd Gynhadledd Awtistiaeth Flynyddol Gogledd Cymru 2019

Croeso, gan Addysg a Hyfforddiant Awtistiaeth AA, Cwmni Budd Cymunedol di-elw sy'n cefnogi pobl awtistig i gynllunio a chyflwyno eu rhaglenni hyffordiant eu hunain o'u profiad nhw ac i gyd-gynhyrchu Cynhadledd Awtistiaeth Gogledd Cymru gyda chyflwynwr awtistig.

Eleni, mae gennym ni leoliad cyffrous newydd sbon (Y Ganolfan Gynadledda) a rhaglen lawn wedi'i chynllunio i feithrin eich dealltwrieath a rhoi'r diweddaraf i chi ynghyd â gwybodaeth gredadwy gyfredol ar gyfer helpu pobl ar y sbectrwm awtistig, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Mae ein rhaglen ar gyfer 2019 i'w gweld yma: www.northwalesautismconference.org/programme

Mae gennym ni siaradwr gwych ar y gweill i chi sydd wedi'u dewis yn benodol am eu harbenigedd ym maes awtistiaeth a'u gallu i gyfleu eu gwybodaeth mewn modd brwdfrydig, a'n hysbrydoli ni i gyd! Mae'n argoeli i fod yn ddiwrnod anhygoel ac yn brofiad dysgu gwerth chweil.

PAM DDYLWN I FYND?

- Gloywi a diweddarau eich gwybodaeth
- Clywed gan arbenigwyr bleanllaw a chwrdd â nhw
- Meithrin strategaethau ymarferol ar gyfer cefnogi pobl awtistig
- Dysgu o enghreifftiau o arferion da
- Cyfleoedd rhwydweithio amhrisiadwy a mynediad at stondinau masnach

PWY DDYLAI FYND?

Dylai'r gynhadledd fod o ddiddordeb i staff ac arweinwyr yn y blynyddoedd cynnar, mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion, gweithwyr cymdeithasol ac eraill sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal cymdeithasol, sefydliadau gwirfoddol ac elusennol, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, staff ac arweinwyr o'r awdurdod lleol, pobl awtistig, rhieni ac eraill sydd â diddordeb.

SYLWADAU GAN GYNADLEDDWYR BLAENOROL

“Ysbrydoledig ac addysgiadol. Clod i'r Gymuned Awtistig a threfnwyr y digwyddiad.”

“Llawn gwybodaeth, gobaith ac ysbrydoliaeth. Mae'r digwyddiad yma wedi fy helpu i ddeall mwy am fy mhlentyn.”

“Fedra i ddim aros tan y flwyddyn nesaf!”

“Gwych – diolch yn fawr iawn.”

“Daliwch ati – rydych chi'n gwneud gwaith ardderchog!”

“Amrywiaeth ardderchog, rhywbeth at ddant pawb.”

“Cyffrous, procio'r meddwl ac yn ein hysbrydoli i gydnabod sefyllfaoedd personol, nid dim ond rhwystrau.”

“Digwyddiad penigamp, wedi'i drefnu'n dda, yn cwmpasu ystod eang o bynciau. Addysgiadol, defnyddiol, diddorol a difyr iawn.”

“Am y tro cyntaf, rydw i wedi dechrau deall fi fy hun heb feddwl am ymddiheuro am bwy ydw i.”

Mae'r Telerau ac Amodau Cofrestru ar gael ar ein gwefan:

www.northwalesautismconference.org